# COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU, YR AMGYLCHEDD A THAI (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 3 GYNT) A GYNHALIWYD MEWN MODD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD LLUN, 14 GORFFENNAF 2025 AM 16:00

## Yn Bresennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| O Clatworthy | C Davies | GH Haines | I Williams |
| T Wood | | | |

## Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | N Clarke | RJ Collins | C L C Davies |
| W J Kendall | J E Pratt | G Walter | MJ Williams |

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Janine Nightingale - Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau

## Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai |
| Y Cynghorydd Paul Davies | Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| Martin Morgans | Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro - Gwasanaethau Cymunedol |
| Delyth Webb | Rheolwr Grŵp - Adfywio Strategol |
| Louise Connolly | Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol |
| Jacob Lawrence | Prif Swyddog Adfywio |
| Billy Stark | Prif Swyddog Adfywio |

## Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rachel Keepins | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd |

| | |
|---|---|
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro |

Datgan Buddiannau:

P Davies – personol – Eitem 4 – mewn unrhyw fater sy'n ymwneud ag Ymddiriedolaeth Ddatblygu Caerau ac Aelod o Gyngor Tref Maesteg

J Pratt – personol – Eitem 4 – Aelod o Gyngor Tref Porthcawl / rhagfarnus – Eitem 5 – Aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu (PRhD)
M Williams – personol – Eitem 4 – Aelod o ddau Gyngor Tref a Chymuned (CTCh)
I Williams – personol – Eitem 4 – Aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac yn ymwneud â Chaeau Trecelyn / Clwb Rygbi Bridgend Athletic
T Wood – personol – Eitem 4 – Yn ymwneud â Chlwb Rygbi Bridgend Athletic
H Bennett – personol – Eitem 4 – Cyflogwr – yn derbyn Cyllid Ffyniant Gyffredin
R Collins – personol – Eitemau 4 a 5 – Aelod o CTCh a PRhD
JP Blundell – personol – Eitemau 4 a 5 – Cyn-aelod o'r Cabinet
W Kendall – personol – Eitem 5 – Aelod o PRhD
G Haines – personol – Eitem 5 – Aelod o PRhD

## 104. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Pwnc 3 ar 17 Chwefror 2025 a 7 Mawrth 2025 yn gofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Gorffennaf 2025 |

## 105. Adfywio Porthcawl

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y |

| | |
|---|---|
| | Pwyllgor yr argymhellion canlynol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>1. Mynegodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad am yr ymweliad safle diddorol ac addysgiadol yn gynharach y diwrnod hwnnw lle gellid gofyn cwestiynau i Swyddogion a chael atebion ac **argymhellodd** y Pwyllgor fod yr ymgysylltiad â'r Aelodau yn parhau wrth i'r prosiect esblygu yn y dyfodol.<br><br>2. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod pryderon preswylwyr ynglŷn ag uchder arfaethedig y blociau fflatiau, yn enwedig y rhai a gynigir ar gyfer Salt Lake, yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad i uchder adeiladau a bod ystyriaeth yn cael ei roi i gyfyngu'r uchder i uchafswm o ddau neu dri llawr.<br><br>3. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynglŷn â'r effaith y byddai'r 1100 o gartrefi newydd arfaethedig ym Mhorthcawl yn ei chael ar argaeledd meddygon teulu, a gwasanaethau iechyd a deintyddol eraill gan **argymell** cefnogi ymdrechion lobïo'r Dirprwy Arweinydd a’r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles i'r awdurdod iechyd lleol o ran digonolrwydd gwasanaethau ym Mhorthcawl wrth i'r prosiect adfywio fynd rhagddo.<br><br>4. Cydnabu'r Pwyllgor fod y gwaith adfywio arfaethedig yn drawiadol, ond mynegodd ei bod yn hanfodol bod Porthcawl yn parhau i fod yn dref glan môr cyrchfan gan **argymell** bod angen sicrhau ymgysylltiad parhaus â thrigolion, modelu effaith economaidd tymor byr y prosiect ar fusnesau lleol a chreu cynnig gydol y flwyddyn (gydag atyniadau parhaol) i sicrhau dyfodol ffyniannus i'r dref.<br><br>5. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod ystyriaeth yn cael ei roi i'r gefnogaeth sydd ei hangen ar fusnesau lleol yn ystod y trawsnewid, gan gynnwys lleihau tarfu yn ystod misoedd yr haf wrth i wahanol gamau'r prosiect gael eu rhoi ar waith.<br><br>6. O ystyried yr argyfwng natur a ddatganwyd gan y Cyngor, **argymhellodd** y Pwyllgor fod sicrwydd yn cael ei roi na fydd unrhyw effaith negyddol ar fioamrywiaeth Sandy Bay o ganlyniad i'r adfywio a'i fod yn parhau i gael ei ddiogelu.<br><br>7. |

| | |
|---|---|
| | **Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>8. Trafododd y Pwyllgor y nifer sylweddol o gartrefi newydd arfaethedig, y byddai nifer helaeth ohonynt yn fflatiau a rhai ohonynt yn dai cymdeithasol a **gofynnwyd** am ymateb ysgrifenedig yn amlinellu targed tai presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (a'r targed tai cymdeithasol cysylltiedig), a'i berthynas â nifer y cartrefi newydd arfaethedig fel rhan o brosiect Adfywio Porthcawl.<br><br>9. Gofynnodd y Pwyllgor i ymweliadau safle gael eu trefnu cyn yr adroddiadau a drefnwyd ynghylch Pafiliwn Porthcawl a Neuadd y Dref Maesteg. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Gorffennaf 2025 |

## 106. Diweddariad Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC)

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>10. Trafododd y Pwyllgor y cynnydd sylweddol mewn taliadau a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer defnyddio caeau a chyfleusterau chwaraeon sy'n eiddo i'r Cyngor ac **argymhellodd** fod y Cabinet yn ystyried a yw'r polisi yn dal i fod yn gywir ac yn addas at y diben yn yr hinsawdd ariannol bresennol a bod y Deep Dive Group ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn archwilio'r polisi codi tâl.<br><br>11. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod Aelodau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cynghori am |

| | |
|---|---|
| | unrhyw TAC sy'n cael ei ddechrau yn eu Ward i alluogi ymgysylltiad a chefnogaeth.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>12. Trafododd y Pwyllgor y rhesymau, gan gynnwys ystyriaethau ariannol, bod clybiau a grwpiau cymunedol yn optio i mewn i'r broses TAC neu beidio, gan gynnwys bod y llwybr TAC yn galluogi i geisiadau cyllid allanol gael eu gwneud gan glybiau a grwpiau cymunedol gan **ofyn** am restr o gyllid allanol sydd ar gael i sefydliadau o'r fath.<br><br>13. **Gofynnodd** y Pwyllgor, er tryloywder, bod cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Llywio TAC yn cael eu cylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor.<br><br>14. **Gofynnodd** y Pwyllgor eu bod yn cael gwybod pan fydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ar ddyfodol parciau mawr yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>15. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ddiweddariad ysgrifenedig ynghylch y brydles bresennol a statws ariannol a chyflwr y ddau bafiliwn yng Nghaeau Trecelyn.<br><br>16. **Gofynnodd** y Pwyllgor bod adroddiad ar y Rhaglen TAC yn cael ei ychwanegu at eu Blaenraglen Waith mewn 12-18 mis i werthuso cynnydd, gan gynnwys diweddariad ar argymhellion archwiliad mewnol a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2025, a nodir ym mharagraff 2.1.6 o'r adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Gorffennaf 2025 |

## 107. Enwebu Pencampwr Rhianta Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Enwebu'r Cynghorydd Gary Haines i gynrychioli Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai fel Gwahoddedig i gyfarfodydd Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Gorffennaf 2025 |

## 108. Diweddariad am y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion uchod, nododd y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nododd y byddai'r Flaenraglen Waith, fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor, yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Gorffennaf 2025 |

## 109. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Gorffennaf 2025 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:45.